OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 1499

## Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2019

**Enwi, cymhwyso, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2019.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru, ac eithrio fel y darperir ym mharagraff (3).

(3) Nid yw rheoliad 2(7) o'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag adeiladau ynni a eithrir yng Nghymru.

(4) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 13 Ionawr 2020.

(5) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 2010" yw Rheoliadau Adeiladu 2010(**1**).

(**1**) O.S. 2010/2214; mewnosodwyd rheoliad 37A gan O.S. 2013/2730 (Cy. 264) a chan O.S. 2018/558 (Cy. 97) mewn perthynas ag adeiladau ynni a eithrir yng Nghymru.